



Nodir isod gyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

LLYTHRENNEDD: DARLLEN

Yn gyffredinol, wrth ddarllen drwy'r cylchgrawn, mae cyfleoedd i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan drwy

- ddefnyddio'ŷ gwybodaeth am darddiad a theuluoedd geiriau (e.e. yn y gweithgaredd rhngweithiol cychwynnol a'r posau **Beth ydy ...?**)
- defnyddio'ŷ gwybodaeth o gystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
- defnyddio'ŷ gwybodaeth o gynnwys a chyd-destun

Mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt

Yn fwy penodol, mae cyfleoedd i:

- ddilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil
- yn y darnau Hwyl! (Beicio BMX), Hwyl! (Eirafyrddio), Pwy ydy'r seleb?

LLYTHRENNEDD: LLAFAREDD

Yn gyffredinol, wrth ymateb ar lafar i'r darnau darllen, mae cyfleoedd i:

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys

LLYTHRENNEDD: YSGRIFENNU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Wrth ymgymryd â gwaith ysgrifennu, mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifenn
- nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio
- defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau
- ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnodau), a defnyddio collnodau'n gywir
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

RHIFEDD: DATBLYGU YMRESYMU RHIFYDDOL

Wrth wneud holiaduron, ac ymateb i graff, (e.e. yn y darn Hobïau), mae cyfleoedd i ddehongli gwybodaeth fathemategol; defnyddio graffiau, diagramau a data i ddod i gasgliadau, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data

RHIFEDD: DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Wrth wneud holiaduron a chreu graffiau, (e.e. yn y darn Hobïau), mae cyfleoedd i

- llunio ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data ac i adlewyrchu pwysigrwydd graddfa
- dehongli diagramau a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch)